caerdydd
un
blaned

www.caerdyddunblaned.co.uk

CARDIFF
CAERDYDD

Cyflwyniad

Mae Caerdydd heddiw yn ddinas tair planed. Pe bai pawb yn y byd yn defnyddio adnoddau naturiol ac yn cynhyrchu carbon deuocsid i'r un graddau â ni yng Nghaerdydd, byddai angen tair planed arnom i'n cynnal.

Ein dyhead yw bod Caerdydd yn ddinas un blaned erbyn 2050.

Mae bod yn ddinas un blaned yn golygu sicrhau bod Caerdydd yn **ddinas fentrus, lewyrchus, iach, hapus a glân gwyrdd gynaliadwy** yn y dyfodol.

Gwyddom y bydd y byd yn newid yn yr 21ain Ganrif. Bydd angen i Gaerdydd ymateb mewn ffordd hyd yn oed yn fwy cadarnhaol i gynnal economi gadarn, diogelu'r amgylchedd a gwneud y defnydd gorau ohono a defnyddio llai o adnoddau er mwyn cyflawni ein dyhead i fod yn Ddinas Un Blaned.

Bydd heriau mawr i'w goresgyn – fel rheoli newid yn yr hinsawdd, demograffeg sy'n newid, a dinas a fydd yn tyfu'n gyflym.

Bydd hefyd gyfleoedd mawr i achub arnynt – datblygu cwmnïau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd i ateb yr heriau newydd, manteisio ar statws Caerdydd fel dinas ifanc sy'n tyfu a datblygu'r economi werdd.

Ein nod yw i Gaerdydd ddod yn ddinas sy'n adnabyddus am feddylfryd a gweithredu cynaliadwy. Bydd gwneud hyn yn iawn yn creu swyddi, yn gwella iechyd a lles ac yn lleihau anghydraddoldeb yn ogystal â diogelu'r amgylchedd.

Yn fras, bydd yn gwneud Caerdydd yn lle gwell byth i fyw yno yn 2050 nag ydyw heddiw.

Mae'r ddogfen hon yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Caerdydd Un Blaned gynaliadwy gan ganolbwyntio ar feysydd allweddol sef ynni, gwastraff, trafnidiaeth, bwyd, dŵr, lleoedd a phobl. Mae'r cynllun cyflawni cysylltiedig yn nodi'r projectau allweddol i wireddu'r weledigaeth hon, a chaiff y cynllun hwnnw ei fonitro a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

one planet cardiff

caerdydd un blaned

Yr Heriau...



Newid yn yr Hinsawdd

Gwyddom fod hinsawdd y byd yn newid. Bydd yn cael yr effaith waethaf ar rannau o'r byd sy'n agored i niwed, ond bydd yn effeithio ar Gaerdydd hefyd. Gall hyn olygu mwy o dywydd eithafol fel stormydd, sychder ac eira, yn ogystal â thueddiadau tymor hwy am hafau poethach a sychach a gaeafau mwynach a gwlypach. Caiff effeithiau dybryd hefyd ar ddinasoedd arfordirol, fel Caerdydd, os bydd lefel y môr yn codi yn ôl y disgwyl.

Ynni

Arferai Cymru fod yn hunangynhaliol o ran ynni – arferai'r glo a allforiwyd o Gaerdydd bweru'r byd yn ystod y 19eg ganrif – ond nid mwyach. Heddiw, mae Cymru'n dibynnu ar ynni a gaiff ei fewnforio, ac mae prisiau ynni'n codi. Yn yr 21ain ganrif bydd angen i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o fyw sy'n defnyddio llai o ynni, a ffyrdd newydd o gynhyrchu ein hynni ein hunain.

Globaleiddio

Dros y 25 mlynedd diwethaf mae'r diwydiannau a'r ffatrïoedd a fu wrth wraidd economi Caerdydd wedi symud i rannau eraill o'r byd. Yn y dyfodol, bydd angen i ni greu, dylunio neu gynhyrchu'r pethau y mae'r byd eu heisiau, a bydd eisiau cynhyrchion, nwyddau a gwasanaethau 'un blaned' ar y byd.

Newid Demograffeg

Tua'r flwyddyn 1800, cyrhaeddodd poblogaeth y byd 1 biliwn am y tro cyntaf erioed. Erbyn 2050 bydd poblogaeth y byd dros 9 biliwn. Ac er ein bod yn byw'n hirach, nid ydym yn byw'n iachach. Mae hyn yn debygol o roi pwysau mawr ar y gwasanaethau cyhoeddus, y cyflenwad tai, pensiynau ac, wrth gwrs, po fwyaf y boblogaeth, y mwyaf ein hôl troed ecolegol.

Trefoli

Bellach mae dros hanner poblogaeth y byd yn byw mewn dinasoedd. Erbyn 2050 bydd hyn yn codi i ddwy ran o dair. Mae Caerdydd hefyd yn wynebu twf sylweddol yn ei phoblogaeth o tua 20% dros y 15 mlynedd nesaf. Bydd rheoli'r twf hwn mewn ffordd gynaliadwy yn hanfodol i'n helpu i ddod yn Ddinas Un Blaned.

Bioamrywiaeth

Mae amrywiaeth bywyd ar y ddaear – sef bioamrywiaeth – yn diflannu ar gyfradd gyflymach nag ar unrhyw adeg arall yn hanes y ddynoliaeth. Mae gan Gaerdydd doreth o blanhigion ac anifeiliaid sy'n cynorthwyo ac yn gwella ein bywydau; mae atal dirywiad cynefinoedd a rhywogaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau'r nwyddau a'r gwasanaethau a geir o'r amgylchedd naturiol.

Y cyfleoedd...

Mae'r heriau hyn yn sylweddol ond maent hefyd yn creu nifer o gyfleoedd cadarnhaol i'r ddinas ac rydym yn barod i fynd i'r afael â nhw. Mae gennym unigolion, busnesau a grwpiau cymunedol sy'n dyfeisio ac yn datblygu atebion newydd, arbenigedd academaidd sydd gystal â'r goreuon rhyngwladol, a mwy o raddedigion y pen nag unrhyw un o 'ddinasoedd craidd' Lloegr. Bydd achub y cyfle yn dibynnu ar dalent, creadigrwydd a menter dinasyddion Caerdydd, ac nid oes prinder o'r rhinweddau hyn ymhlith pobl Caerdydd.

Y dull datblygu cynaliadwy

I fynd i'r afael â materion a chyfleoedd fel y rhain mae angen i ni ystyried goblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ein penderfyniadau. I gyflawni datblygu cynaliadwy dylai gweithgarwch economaidd weithio tuag at sicrhau cynnydd cymdeithasol, a rhaid gwneud hynny o fewn cyfyngiadau amgylcheddol. Un o'r rhwystrau allweddol i gynaliadwyedd yw cyfyngiadau amgylcheddol, ac mae Caerdydd, fel holl ddinasoedd y gorllewin, ar hyn o bryd yn defnyddio mwy na'i chyfran deg o adnoddau'r Ddaear.

Er bod y ddogfen hon yn canolbwyntio ar gyfyngiadau amgylcheddol rhaid i ni gofio'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd hefyd. Mae angen i ni sicrhau bod ein dull gweithredu yn ystyried 'elw triphlyg' lle caiff yr elw a ddaw yn sgil polisïau, projectau a buddsoddiad ei werthuso ar sail yr enillion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor.

Mae Bil Datblygu Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru, a ddaw i rym yn 2015, yn nodi bod rhaid i ddatblygu cynaliadwy fod yn 'brif egwyddor drefniadol' ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru. Bydd Caerdydd Un Blaned yn llywio ein hadroddiadau ar gynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy ym mhob rhan o'r Cyngor a'r ddinas.

Caerdydd Heddiw: Dinas Tair Planed

Dinas tair planed yw Caerdydd. Pe bai pawb yn y byd yn defnyddio adnoddau naturiol ac yn cynhyrchu carbon deuocsid i'r un graddau â ni yng Nghaerdydd, byddai angen tair planed arnom i'n cynnal. Nid yw hynny'n gynaliadwy nac yn deg i bawb sy'n rhannu'r blaned â ni.

Beth yw ôl troed ecolegol?

Mae ôl troed ecolegol yn cyfrifo faint o dir sydd ei angen ar gyfer dinesydd arferol ar gyfer popeth y mae'n ei ddefnyddio (cynnyrch ac adnoddau) a'i gynhyrchu (gwastraff ac allyriadau) fesul blwyddyn.

Caerdydd Un Blaned

Ein dyhead yw i Gaerdydd fod yn ddinas un blaned erbyn 2050:

Gwlad	Planedau
Malawi	0.26
India	0.48
Tsieina	1.11
Brasil	1.3
Slofacia	1.75
Ffrainc	2.6
Y Deyrnas Unedig	2.9
Canada	3.8
Awstralia	4.1
UDA	5

Dadansoddiad o'n hôl troed presennol:



Sut allwn ni gyrraedd y nod?

I fod yn Ddinas Un Blaned bydd yn rhaid i ni wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol.

Caerdydd Un Blaned: Beichiau Mawr

YNNI un blaned

POBL un blaned

DŴR un blaned

BWYD un blaned

GWASTRAFF un blaned

TRAFNIDIAETH un blaned

LLEOEDD un blaned

Mae ynni, gwastraff, trafnidiaeth, bwyd a dŵr yn effeithio ar y lle rydym yn byw ynddo, a'r dewisiadau y gall pobl eu gwneud i fyw bywydau mwy cynaliadwy.

Ynni Un Blaned

Mae angen ynni arnom oll i gynhesu ein cartrefi, coginio ein bwyd, pweru'r nwyddau trydanol rydym yn eu defnyddio a rhedeg ein ceir. Mae'r problemau sy'n ymwneud â diogelu ffynonellau ynni byd eang a chyflenwi ynni, yn ogystal â'r costau cynyddol, yn hysbys i bawb. Yr heriau a wynebir nawr yw lleihau'r galw am ynni, buddsoddi mewn cyflenwadau ynni lleol cynaliadwy, sicrhau bod ffynonellau ynni wedi'u diogelu ar gyfer dinasyddion a sicrhau bod cyflenwadau mwy fforddiadwy ar gael.

Mae llawer o'n hynni yn cael ei ddefnyddio yn ein cartrefi, ac adeiladwyd y rhan fwyaf o'n cartrefi beth amser yn ôl. Hyd yn oed erbyn 2050 bydd cyfran helaeth o gartrefi'r Deyrnas Unedig wedi'u hadeiladu yn yr ugeinfed ganrif, nid yr unfed ganrif ar hugain. Felly bydd gwella cynaliadwyedd ein cartrefi presennol yn allweddol o ran lleihau ein galw am ynni a symud tuag at ein dyhead i fod yn Ddinas Un Blaned.

Rydym wedi gosod targed i leihau CO2 ledled y ddinas 26% fesul unigolyn erbyn 2020, fel rhan o'n hymrwymiad i Gyfamod Meiri'r Undeb Ewropeaidd, ac wedi ffurfio partneriaethau gyda busnesau a sefydliadau lleol ym mhob rhan o'r ddinas er mwyn cyflawni hyn.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i leihau allyriadau CO2 o weithgareddau'r Cyngor 60% erbyn 2018 ac rydym wedi clustnodi dros £1,250,000 i brojectau ynni yn ddiweddar, ac mae buddsoddiad pellach ar y gweill.

Rhaid sicrhau ein bod yn manteisio ar botensial cyfleoedd i gynhyrchu ynni cynaliadwy yn y ddinas, fel ynni solar, ynni dŵr, biomas, gwres o'r ddaear, ynni'r llanw ac ynni gwynt. Mae technoleg ynni yn gyfle i feithrin arloesedd drwy bartneriaethau a busnesau newydd ac mae'n gyfle i greu swyddi gwyrdd a sicrhau ffyniant. Mae ymgysylltu â'r gymuned er mwyn lleihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ynni yn bwysig hefyd. Yn ddiweddar buom yn cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i roi cyngor i breswylwyr 1000 o gartrefi yn Rhiwbeina ar leihau eu defnydd o ynni a dŵr, gan arwain at leihau allyriadau carbon ac arbed costau.

Mae nifer o gynlluniau i leihau'r galw am ynni a chynyddu'r ynni cynaliadwy a gynhyrchir yn lleol yn mynd rhagddynt neu ar y gweill; gellir gweld y manylion yng nghynllun cyflawni Caerdydd Un Blaned.



Lleihau allyriadau carbon deuocsid **26%** y pen erbyn **2020**

Gwastraff Un Blaned

Nod Caerdydd yw bod yn Ddinas Ddiwastraff erbyn 2050. Nid dyhead yn unig yw hyn; mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed bod rhaid ailgylchu neu gompostio 70% o wastraff cartref erbyn 2025.

Mae'r rhain yn dargedau heriol. Serch hynny, rydym ar y trywydd iawn i'w cyflawni. Ein nod cyntaf yw ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio cymaint o wastraff â phosibl. Dros y 10 mlynedd diwethaf mae cyfraddau ailgylchu a chompostio gwastraff y cartref yng Nghaerdydd wedi cynyddu o 4% i 52%. Disgwylir i ni ragori ar y targed i ailgylchu 52% o wastraff yn 2013/14 a byddwn yn parhau i addasu a diwygio strategaethau i gyflawni'r targedau uchaf, lleihau gwastraff a gwneud y defnydd gorau posibl o wastraff fel adnodd yn gyffredinol.

Er mwyn cyflawni'r targedau hyn, hyd yma rydym wedi newid ein patrymau casglu gyda gwastraff bwyd a bagiau ailgylchu gwyrdd yn cael eu casglu bob wythnos, a bagiau duon a biniau yn cael eu casglu bob yn ail wythnos. Cyflawnwyd cryn dipyn, ond roedd llawer o'r hyn a gyflawnwyd yn hawdd i'w wneud, a rhaid gwneud mwy. Mae angen i ni annog pobl i leihau gwastraff, ailddefnyddio gwastraff yn y ffordd orau posibl, ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl ac osgoi gwaredu gwastraff; ynghyd â newid arferion pobl a newid gweithgarwch busnes mewn ffordd a fydd yn helpu i leihau costau i fusnesau. Er mwyn creu Caerdydd Un Blaned bydd angen i ni adolygu ein targedau o ran lleihau gwastraff yn barhaus a bwrw ati i sicrhau cynnydd.

Bydd y cynllun cyflawni yn parhau i ddisgrifio'r hyn a gyflawnyd a'r newidiadau ychwanegol hynny sydd angen eu cyflawni er mwyn cyrraedd y nod o fod yn Ddinas Ddiwastraff erbyn 2050.

Dinas Ddiwastraff erbyn **2050**

Trafnidiaeth
Un Blaned

Ar hyn o bryd, teithiau mewn ceir preifat sy'n cyfrif am ran helaeth o drafnidiaeth yng Nghaerdydd. Mae hyn yn creu heriau i'r ddinas o ran allyriadau carbon, tagfeydd ac iechyd. Gall gwneud trefniadau trafnidiaeth priodol helpu i wneud Caerdydd yn ddinas fwy ddiogelach, iach, mwy llewyrchus, glan a gwyrdd. Mae'n amlwg fod angen i ni newid y ffordd y mae trafnidiaeth yn gweithio yn y ddinas, gyda'r nod o'i gwneud hi mor hawdd â phosibl i adael eich car gartref drwy gynnig dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy sydd ar gael i bawb.

Gan gydnabod yr angen i newid dulliau teithio pobl, dynodwyd Caerdydd yn Ddinas Deithio Gynaliadwy gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cyflwyno Clwb Ceir Caerdydd er mwyn galluogi teuluoedd i arbed arian a lleihau eu hallyriadau carbon drwy gael gwared ar eu hail gar; creu cyfleusterau parcio a theithio yn nwyrain, gorllewin a de'r ddinas; rhoddwyd trefniadau ar waith sy'n rhoi blaenoriaeth i fysus; datblygu cynllun rhwydwaith beicio strategol ar gyfer y ddinas; agor Pont y Werin er mwyn cwblhau llwybr cylchol 10km Llwybr y Bae a gwella'r cysylltiadau teithio llesol rhwng Penarth a Chaerdydd; a chyflwyno, ar y cyd â Heddlu De Cymru, hyb SMART y ddinas sy'n helpu i fonitro a rheoli llif trafnidiaeth yn well ym mhob rhan o'r ddinas.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd da mae angen gwneud mwy o hyd. Wrth i'r ddinas dyfu byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu cymdogaethau cynaliadwy ac yn gwella rhwydweithiau yn barhaus er mwyn cynnig dewisiadau teithio cynaliadwy a llesol realistig. Mae'r cynllun cyflawni yn nodi manylion pellach projectau sydd ar waith eisoes a phrojectau sy'n cael eu datblygu â'r nod o newid dulliau teithio pobl.

Bydd **50%** o'r holl deithiau yng Nghaerdydd yn defnyddio dulliau teithio cynaliadwy erbyn **2026**

Bwyd Un Blaned

Mae'n syndod mai bwyd yw'r gydran fwyaf o ôl troed ecolegol Caerdydd. Mae'r ôl troed bwyd yn cynnwys ffermio, prosesu, dosbarthu, pecynnu, arlwyo a manwerthu a gwastraff. Mae'ch pryd bwyd yn teithio'n bell ac yn mynd trwy nifer o brosesau cyn cyrraedd eich plât.

Y ffordd orau o arafu twf ôl troed bwyd Caerdydd, a chreu swyddi lleol a gwella'n hiechyd ar yr un pryd, yw cynyddu ein defnydd o fwydydd ffres, lleol, tymhorol ac organig.

Yn 2004 Caerdydd oedd Prifddinas Masnach Deg gyntaf y byd, a Chymru oedd Cenedl Masnach Deg gyntaf y byd yn 2008. Mae masnach deg yn gwarantu gwell prisiau, amodau gwaith derbyniol a chynaliadwyedd lleol i gynhyrchwyr mewn gwledydd datblygol. Yn ddiweddar, mae Caerdydd wedi ymuno â Rhwydwaith Dinasoedd Iach Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, a thrwy hyn byddwn yn canolbwyntio ar ffordd iach o fyw a mynd i'r afael â gordewdra.

Bob dydd, mae'r Cyngor yn darparu tua 33,000 o brydau bwyd mewn 147 o leoliadau ar draws Caerdydd. Drwy ddewis y cynhwysion cywir gallwn helpu i hyrwyddo byw'n iach, gan gefnogi'r economi leol a lleihau ein hôl troed bwyd. Mae ein tîm 'Blas ar Goginio', a enillodd webr Tîm Rheoli Arlwye y Flwyddyn Cymru yn ddiweddar, wedi bod yn cyflwyno'r neges bwyta'n iach yn ysgolion y ddinas i ddangos pa mor hawdd yw coginio bwyd ffres, blasus ac iach.

Yn ogystal ag annog pobl i brynu bwyd iach lleol, rydym am gynyddu faint o fwyd a gynhyrchir yn lleol hefyd. Rydym yn rheoli 28 o safleoedd rhandiroedd gyda dros 2000 o leiniau. Rydym hefyd wedi creu 300 o leiniau newydd yn ddiweddar gyda mwy ar y gweill yn y blynyddoedd i ddod, ac rydym hefyd yn ystyried sefydlu cyfres o erddi cymunedol.

Prifddinas Masnach Deg Gyntaf y Byd

Dŵr
Un Blaned

Mae angen i ni fod yn ddoeth o ran ein defnydd o ddŵr a bod yn Ddinas sy'n Sensitif o ran Dŵr



Mae gan Gymru lawer o ddŵr, ond mae angen i ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnodd naturiol hwn yn ddoeth. Her fawr, a chyfle mawr, fydd manteisio i'r eithaf ar yr adnodd hwn, i ddatblygu ffyrdd newydd o gyflenwi dŵr, trin dŵr, cael ynni o ddŵr, sicrhau diogelwch dŵr, ac wrth gwrs paratoi ar gyfer gormod o ddŵr ar ffurf llifogydd sydyn a lefel y môr yn codi, gan greu dinas sy'n sensitif o ran dŵr ym mhob ffordd.

Rhaid i ddinasoedd arfordirol a dinasoedd mewn basn afon, fel Caerdydd, ymateb i'r perygl o lifogydd. Drwy ein Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Llifogydd cysylltiedig rydym yn ystyried y bygythiad posibl gan lifogydd dros y ganrif nesaf, sy'n llunio ein meddylfryd o ran projectau atal llifogydd a phenderfynu lle y dylid adeiladu tai a lleoli busnesau yn y dyfodol.

Ym Mae Caerdydd, rydym wedi datblygu dulliau arloesol o ymdrin ag ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, ocsigeneiddio a rheoli llygredd a sbwriel.

Rydym hefyd yn ystyried sut y gellid defnyddio afonydd Taf, Elái a Rhymni a morglawdd Bae Caerdydd i gynhyrchu ynni. Aber Afon Hafren sydd ag amrediad llanw fwyaf ond un y byd ac mae llawer o fornentydd ar garreg ein drws, felly gallai Caerdydd ddod yn un o ddinasoedd pwysicaf y byd o ran adnoddau dŵr ac ynni dros y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn parhau i gydweithio ag awdurdodau a busnesau eraill o amgylch Aber Afon Hafren i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn, gan sicrhau bod unrhyw gyfleoedd o'r fath yn ystyriol o'r safle bywyd gwyllt hwn sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, ac yn ei ddiogelu.

Mae dŵr yn adnodd y gall pawb ei gasglu a'i ddefnyddio'n ddoethach. Bydd Caerdydd yn cydweithio â phartneriaid i fanteisio i'r eithaf ar ddŵr fel adnodd, cynorthwyo gyda chynlluniau draenio cynaliadwy a chynlluniau datblygu yn ogystal â chefnogi preswylwyr i wneud mwy yn eu cartrefi o ran defnyddio dŵr llwyd. Mae Cyngor Caerdydd yn cynnig casgenni dŵr am bris gostyngedig i gartrefi er mwyn iddynt gasglu eu dŵr eu hunain. Yn ogystal â bod yn fwy cynaliadwy, mae defnyddio dŵr yn y ffordd hon i ddyfrio'r ardd neu olchi'r car yn golygu eich bod yn cael adnodd am ddim hefyd.

Mae nifer o brojectau yn mynd rhagddynt neu'n cael eu datblygu o ran rheoli'r risg o lifogydd, cynhyrchu ynni dŵr a chynlluniau draenio cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun cyflawni.

Lleoedd Un Blaned

Bydd Cymunedau Cynaliadwy wrth wraidd ein dull o ddatblygu Caerdydd Un Blaned. Mae Caerdydd yn adnabyddus am ei chymunedau bywiog a'i hymdeimlad cryf o frogarwch. Mae angen i'r lleoedd hyn ddatblygu er mwyn goresgyn yr heriau allweddol o ran cyflawni ein dyhead i sicrhau Caerdydd Un Blaned.

Byw **Un Blaned**

Bydd Caerdydd yn tyfu. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu tua 20% dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol i gynllunio twf y ddinas ac ymateb i ffactorau allweddol o ran cynaliadwyedd. Bydd twf poblogaeth yn arwain at greu tai newydd a chymunedau newydd a gaiff eu cynllunio a'u hadeiladu gan ystyried y safonau cynaliadwyedd uchaf, ac a fydd wedi'u cysylltu â'r ddinas drwy ddewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy. Ond yn ogystal â chreu cymunedau newydd, mae angen sicrhau bod y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl ar gael yn lleol, ac ym mhob un o gymunedau'r ddinas.

Gwaith **Un Blaned**

Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau lleol i wneud eu gweithrediadau mor wyrdd â phosibl, yn ogystal ag annog cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy. Dynodwyd rhan fawr o ganol y ddinas yn ardal fenter. Dyma gyfle i uwchgynllunio datblygiad masnachol dwys gan osgoi'r dull gweithredu parciau busnes ar gyrion y dref, gan gymell datblygu adeiladau cynaliadwy a manteisio i'r eithaf ar botensial cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy da i ddalgylch eang.

Chwarae **Un Blaned**

Mae Caerdydd yn ddinas werdd. Mae mwy o fannau gwyrdd fesul pen o fewn i'w ffiniau nag unrhyw un o ddinasoedd mawr eraill Prydain, yn ogystal â mynediad rhwydd i fannau gwyrdd, hyd yn oed yng nghanol y ddinas. Mae'r ddinas yn cynnwys rhwydwaith eang o Hawliau Tramwy sy'n cynnwys Llwybrau Taf, Elái a Rhymni a Llwybr Arfordir Cymru. Mae mannau agored o ansawdd da yn fuddiol i les corfforol a meddyliol ein trigolion, yn cynnal ystod eang o fioamrywiaeth ac yn cynnig coridorau gwyrdd o amgylch y ddinas hefyd. Byddwn yn sicrhau bod y meddylfryd hwn yn parhau ym mhob un o'n datblygiadau ac uwchgynlluniau newydd ym mhob rhan o'r ddinas.

Mae gan Gaerdydd fwy o fannau gwyrdd y pen nag unrhyw un o ddinasoedd craidd eraill y Du

Pobl **Un Blaned**

Mae bod yn Ddinas Un Blaned yn golygu sicrhau bod Caerdydd yn ddinas fentrus, lewyrchus, iach, hapus, glân a gwyrdd yn y dyfodol. Mae'n golygu sicrhau y bydd Caerdydd yn ddinas hyd yn oed gwell i fyw yno yn 2050 nag ydyw heddiw.

Er mwyn cyflawni hyn:

- Ein nod yw sicrhau y daw Caerdydd yn adnabyddus yn fyd-eang fel canolfan ar gyfer meddylfryd a gweithredu cynaliadwy
- Byddwn yn datblygu ein perthnasau niferus â'r byd academaidd, grwpiau buddiant a busnesau arloesol i helpu i lywio ein penderfyniadau a'n projectau
- Byddwn yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i chi wneud newidiadau yn eich cartref a fydd yn arbed ynni ac arian, creu swyddi a lleihau ein hôl troed cyfunol
- Byddwn yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i ailddefnyddio, lleihau ac ailgylchu'r gwastraff a gynhyrchir gennym a fydd yn arbed ynni yn y ddinas, lleihau ein hôl troed a'n helpu i osgoi dirwyon trwm gan yr Undeb Ewropeaidd
- Byddwn yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i chi adael eich car gartref a theithio o amgylch y ddinas drwy ddefnyddio dulliau cynaliadwy
- Bydd cynaliadwyedd yn egwyddor sylfaenol wrth i ni gynllunio twf y ddinas
- Byddwn yn ei gwneud hi mor hawdd â phosibl i chi gael gwybodaeth am faterion cynaliadwyedd er mwyn i chi allu gwneud dewisiadau mwy hyddysg

Yn anad dim, bydd bod yn Ddinas Un Blaned yn golygu ymateb i'r heriau mawr ac achub ar y cyfleoedd mawr sydd gan yr unfed ganrif ar hugain i'w cynnig.

Bydd angen dyfeisio, dylunio a phrofi datrysiadau newydd, a fydd yn eu tro yn gofyn am dalent, dychymyg, menter a dyfeisgarwch. Nid gan ddinasoedd y mae'r rhinweddau hyn, ond gan bobl – ac mae gan bobl Caerdydd ddigonedd o'r rhinweddau hyn. Y bobl sy'n gwneud dewisiadau call, cynaliadwy am eu ffordd o fyw ac sy'n cyflawni newid cadarnhaol mewn ymddygiad fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r ddinas.

Yn fras, er mwyn bod yn Ddinas Un Blaned rhaid i bob un ohonom fod yn Bobl Un Blaned.

Am ragor o wybodaeth am faterion datblygu cynaliadwy cysylltwch â:

Yr Uned Datblygu Cynaliadwy
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

E-bost: **datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk**
Ffôn: **029 2087 3228 / 3234**

Mae angen Pobl Un Blaned ar Ddinas Un Blaned